

Llais Llandyrnog Voice

 llandyrnognews@gmail.com  [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Awst 2021 – Cyfrol 6 – Rhifyn 11

Plannu blodau gwyllt

Rhaid eich bod chi wedi sylwi ar y lleiniau hardd o flodau gwyllt sydd wedi dod i'r golwg yn ddiweddar. Plannwyd y blodau yn y dirgel i godi'n calonnau ni yn ystod y dyddiau tywyll hyn. Ac maen nhw wedi gwneud hynny'n union. Dyma lun o un o'r lleiniau hyn, enghraifft ardderchog nesaf at y 'fainc hunluniau' ar groesffordd Celynog.



(Mae'r fainc wedi dod yn hoff fan i gerddwyr gael seibiant a chymryd llun ohonyn nhw'u hunain a'i roi ar eu cyfrif cyfryngau cymdeithasol). Gallwn ddatgelu mai'r garddwr dirgel yw'r Cynghorydd Merfyn Parry a'i helpwyr ac felly dywedwn diolch yn fawr, Merfyn!

Sioe Rithiol Llandyrnog 2021

Cofiwch mai 1 Medi ydy'r diwrnod olaf i chi gyflwyno'ch lluniau ar gyfer y sioe. Mae rhaglenni ar gael yn Swyddfa'r Post ac yn Siop y Cigydd, ac ar lein ar www.llandyrnogcommunitycouncil.co.uk. Ewch ati!

Diolch o galon unwaith eto i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac i'r rhein sydd wedi cyfrannu'n hael yn ariannol.

Pytiau newyddion y pentre

Pob dymuniad da i John Hugh Roberts, Hyfrydle a Haydn Roberts, The Anchorage – y ddau wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd.

Pen blwydd hapus i David Plumb a diolch yn fawr iawn iddo am gadw'r pentre'n lân ac yn daclus.

Llongyfarchiadau i Ifan Dafydd, Bryn Ffolt, ar raddio gydag anrhydedd mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol o Brifysgol Hope, Lerpwl.

Cydymdeimlwn â Kevin, Celynog a Denise, Fron Haul a'u teuluoedd ar golli eu brawd, Garry, yn ddiweddar. Er bod Garry yn byw yn Ninbych ers blynyddoedd, cafodd ei fagu ym Mron Haul ac roedd yn un o chwaraewyr pêl-droed gorau Llandyrnog yn ei ddydd.

Llongyfarchiadau i Rod a Margaret, Rhiwbebyll Isa ar ddathlu eu Priodas Aur ar 17 Gorffennaf



Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfarchion, cardiau, rhoddion a negeseuon yn dymuno'n dda i mi. Rwy'n gwella'n dda rwan.

Julie Wilson.

Offer chwarae newydd

Mae'n hyfryd gweld lle chwarae Cae Nant ar ei newydd wedd a phawb yn ei fwynhau. Diolch o galon i'r Cyngor Cymuned am gael hyd i'r arian ac am ddewis yr offer newydd. Cwmni Wickstead oedd yn gyfrifol am y gwaith, ac mae wedi gwneud gwaith ardderchog. Bwriad y Cyngor Cymuned oedd cael seremoni agoriadol ond oherwydd cyfyngiadau COVID-19, doedd hyn ddim yn bosibl.



Ysgol Bryn Clwyd

Dyma'r plant sy'n mynd i feithrinfa Little Acorns, yn ystod trip yr ysgol i Sw Caer. Fe aethon ni ychydig cyn gwyliau'r haf.



A dyma'r plant hynaf yn ystod y parti gadael ysgol 'Ellafest'. Fe gawson nhw gestyll bownsio, gemau, peintio wyneb, ceir pedal a fan hufen iâ! Pob dymuniad da i bob un ohonoch!



Diolch yn fawr iawn i Gyngor Cymuned Llandyrnog am y cyfraniad hael tuag at brynu llwybr cadw'n heini ar gyfer maes chwarae'r ysgol. Bydd yn cyrraedd mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn ysgol newydd.

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa Westminster: 0207 2194606



Rwy'n ymgynghorydd annibynnol i The Body Shop at Home. Gallaf gynnig cynnyrch gwych i chi am brisiau ardderchog. Os hoffech gyngor am unrhyw gynnyrch, neu roi archeb, mae croeso i chi gysylltu â mi ar 07765 852922.

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook



Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog Voice:

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones Evans, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).

Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com

Teithio ar fysiau'n fwy hwylus

Mae teithio ar fws yng Ngogledd Cymru yn haws o lawer erbyn hyn

Ers 17 Gorffennaf, mae un tocyn yn ddilys ar fysiau ar draws Gogledd Cymru.

Ar ôl i deithwyr brynu eu tocyn 1bws gan yrrwr bws ar eu taith gyntaf y diwrnod hwnnw, bydd y tocyn yn ddilys i deithio ar fysiau ar draws Gogledd Cymru.

Cost tocyn oedolyn fydd £5.70, plentyn (neu berson ifanc gyda Fy Ngherdyn Teithio) £3.70, a bydd deiliaid pas bws gostyngol Lloegr a'r Alban hefyd yn talu £3.70.

Mae tocyn teulu ar gael am £12.

Un o'r rhesymau pam mae rhai yn gyndyn o roi cynnig ar ddefnyddio'r bws yw dryswch o ran pa docyn i'w brynu. Faint yw'r gost? Pryd gellir ei ddefnyddio? Pwy sy'n gweithredu'r bysiau? Fydd fy nhocyn yn ddilys? Mae'r holl gwestiynau hyn yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r bws.

Mae'n ddigon hawdd gydag 1bws. Un tocyn, am y diwrnod cyfan, yn ddilys ar holl fysiau Gogledd Cymru yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam – ac ar fysiau o Gogledd Cymru i Gaer, yr Eglwys Wen (Sir Amwythig) a Machynlleth.

Mae bysiau ar gael ar draws y rhan fwyaf o'r rhanbarth ac mae modd crwydro Arfordir Gogledd Cymru, Eryri, Bryniau Clwyd, Dyffryn Dyfrdwy.

Dywedodd y Cyngorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Ddinbych: 'Rwy'n falch iawn ein bod yn cefnogi'r fenter hon, a fydd yn gymorth i annog pobl leol ac ymwelwyr i ddefnyddio ein rhwydwaith fysiau helaeth.

'Mae'r fenter yn wych i gael pobl yn ôl ar y bysiau ac i agor cefn gwlad Gogledd Cymru am yr haf mewn modd sy'n diogelu'r amgylchedd.

'Mae'n enghraifft wych o fanteision gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol,



gweithredwyr bysiau a Thrafnidiaeth Cymru. Dyma'r tro cyntaf y bu modd i ni ddarparu a hyrwyddo un tocyn dydd sengl sydd ar gael ar bob gwasanaeth ac mae'r diolch yn ddyledus i weithredwyr mawr a bach am eu hymrwymiad i wella mynediad ar fws.'

Mae gwybodaeth am amserlenni'r holl fysiau yng Ngogledd Cymru ar gael ar-lein ar <http://bustimes.org> neu www.cymraeg.traveline.cymru/ neu drwy ffonio 0800 464 00 00.

Mae 1Bws yn ddilys ar yr holl wasanaethau bysiau lleol sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru (siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) ac eithrio gwasanaeth 28 rhwng yr Wyddgrug a'r Fflint.

Nid yw'n ddilys ar wasanaethau twristiaeth sy'n cael eu gweithredu gan fysiau â tho agored, ar wasanaethau National Express a gwasanaethau parcio a theithio.

CARPET SUPPLY
Home Choose Carpets
FREE Estimates
CARPET FITTING
Own Carpets Fitted
Carpet Refitting Service
CARPET CLEANING
Call Andy
07900 907253
wetordrycarpetcleaning.com

Grant caledi i denantiaid preifat yn Sir Ddinbych

Mae tenantiaid preifat sydd ag ôl-ddyledion rhent yn cael eu hannog i wneud cais am y grant caledi.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweinyddu Grant Caledi Llywodraeth Cymru i denantiaid preifat sydd ag ôl-ddyledion rhent o dros wyth wythnos rhwng 1 Mawrth 2020 a 30 Mehefin 2021 oherwydd pandemig COVID-19.

Mae'r grant, sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i landlordiaid, yn cyd-fynd â llacio mesurau COVID-19 a fydd yn cynnwys galluogi landlordiaid i droi tenantiaid allan o'u tai o 30 Mehefin ymlaen.

Dyweddodd y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol y Cyngor dros Les ac Annibyniaeth: 'Bwriad y grant yw atal pobl rhag mynd yn ddigartref neu gael eu troi allan o'u tai o ganlyniad i golli incwm oherwydd y pandemig.

'Mae'r pandemig wedi cael effaith ar bob rhan o'n cymdeithas a byddwn yn annog unrhyw denantiaid preifat cymwys i wneud cais am y grant hwn.'

Bydd y grant ar gael i rentwyr nad ydyn nhw'n cael budd-daliadau sy'n ymwneud â thai, ac efallai i denantiaid sydd wedi bod ar ffyrlo, sydd wedi gweld gostyngiad yn eu gwaith, neu sydd wedi bod yn hawlio tâl salwch statudol tra oeddent yn sâl gyda COVID-19.

Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu dogfennau a datganiad gan y landlord a fydd yn cael eu hadolygu cyn i'r cyngor dalu'n uniongyrchol i'r landlord.

Os hoffech chi ddymuno gwneud cais am y grant, ewch i www.sirddinbych.gov.uk/grant-caledi-i-denantiaid.

Llun y mis



Fe fydd y rheini ohonoch sydd ar Facebook ac yn aelodau o'r grŵp Cymuned Llandyrnog yn hen gyfarwydd â lluniau'r dyn lleol, Phil O'Loughlin. Mae ei luniau'n amrywio o fywyd gwyllt a golygfeydd i dractorau i dimau pêl-droed. Dyma lun ardderchog o ddau nico yn ymladd dros fwyd.

Os hoffech chi gynnwys llun o'ch eiddo ar dudalennau'r Llais, anfonwch e-bost at llandyrnognews@gmail.com.



4 Kinmel Terrace, Llandyrnog

Locally bred and home-killed meat

Hours of business:

Monday — closed

Tuesday–Friday 8am–5:30pm

Saturday 8am–2pm

Deliveries daily throughout the area

Gair gan y Rheithor

Yn ystod y 18 mis o gyfnod clo, mae pobl wedi methu chwaraeon. Mae chwaraeon yn llesol i iechyd meddwl yn ogystal ag i iechyd corfforol. Er nad oes gen i fawr o ddi-ddordeb mewn chwaraeon, rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith a'r ymroddiad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn y gamp.

Eleni eisoes, mae'r Ewros, pencampwriaeth Wimbledon a'r twrnaint golff agored wedi bod, ac eto rydyn ni yng nghanol y gemau Olympaidd. Oherwydd cyfyngiadau Covid, maen nhw'n cael eu cynnal mewn amodau gwahanol iawn, ond i'r athletwyr, dyma benllanw sawl blwyddyn o ymarfer a pharatoi ar gyfer y digwyddiad mawr hwn.

Efallai eich bod chi wedi gwyllo'r rhaglen deledu, *Gold Rush, Our race to Olympic Glory*. Mae'n cofnodi'r newid mewn agwedd yn sgil gemau Olympaidd 1996 ac ymdrech Prydain i adfer ei enw da ym myd chwaraeon ac ennill rhagor o fedalau. Mae'n gorffen gyda digwyddiadau anhygoel Llundain 2012 a'r pleser mawr a ddaeth yn ei sgil. Efallai ein bod wedi mwynhau'r *Super Saturday* a'r ymdrech i ennill medalau aur, ond er mor wych yr oedd gemau Olympaidd Llundain 2012, does dim amheuaeth eu bod nhw wedi costio'n ddrud i rai o'n sêr pennaf ym myd y campau.

I lwyddo, roedd yn rhaid i'r athletwyr aberthu llawer. Codi gyda'r wawr i ymarfer cyn i weddill y byd ddeffro, poen anafiadau a siom, teithio'n bell oddi cartref, dal ati pan maen nhw'n dyheu am roi'r gorau iddi. Ond i'r rhan fwyaf, roedd y wobr yn fwy o lawer na'r aberth, ac i'r rheini a enillodd fedal, roedd y cyfan werth yr ymdrech.

Byddai'r Apostol Paul yn aml yn defnyddio delweddau chwaraeon yn ei lythyrau at y Cristnogion cynnar i bwysleisio'r penderfyniad a'r ymroddiad sy'n ofynnol i ddilyn bywyd y Cristion. Cymharodd yr athletwr ar drywydd coron anrhydedd â'r Cristion ar drywydd coron bywyd tragwyddol. Ysgrifennodd Sant Paul, 'gadewch i ninnau...rhedeg yr yrfa sydd o'n

blaen heb ddiffygio, gan gadw ein golwg ar lesu, awdur a pherffeithydd ffydd'.

Mae angen dawn a phenderfyniad ar bob athletwr Olympaidd i lwyddo, ond mae ganddyn nhw dîm o bobl sydd wedi cydweithio i sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol i'w galluogi i wneud eu gorau glas. Mae chwaraeon yn dod â phobl o bob math ynghyd ac yn gwneud i ni ymfalchïo i fod yn rhan o'n pentref ni, ein cenedl ni. Mae ein harwyr o fyd y campau yn esiampl i'n pobl ifanc ac yn annog sêr y dyfodol i ddilyn ôl eu traed.

Boed i ni redeg ras bywyd a chredu bod pob cam yn gam o obaith i'r dyfodol.

Jeremiah 29:11: 'Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer,' medd yr ARGLWYDD, 'bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol.'

Gyda phob bendith,

Val Rowlands



Prompt Travel

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week



Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

Teithiau Prydlon



Tacsi a Hurio Preifat

Nodiadau o Blas Ashpool

'Rwyf wrth fy modd yn gwylio a gwranddo ar arddwyr brwd yn mynd o gwmpas gerddi pobl eraill. Mae rhywbeth rhyfedd fel petai'n gafael mewn pobl sydd fel arall yn ymddwyn yn normal. Er ei bod hi'n debyg eu bod nhw wedi teithio rhai milltiroedd i weld gardd, dim ond yn yr hyn sydd ganddyn nhw gartref y mae eu diddordeb nhw. Mae pobl sydd heb ardd eu hunain yn gallu ymhyfrydu yng ngwaith rhywun arall, ond mae'r garddwr go iawn yn canolbwyntio ar ryw blanhigyn bach, yn falch os nad oes golwg rhy lewyrchus arno, ac wrth ei fodd os yw wedi marw. Mae'n cymharu'r planhigyn a'i blanhigyn yntau: "Mae gen i un o'r rheini, ond mae fy un i yn fwy o lawer. Rwy'n credu bod hwn wedi'i blannu yn erbyn y wal anghywir – mae'n methu diodde wyn-ebu'r dwyrain. Fyddet ti'n meddwl eu bod nhw'n gwybod hynny, yn byddet?"

'Pan mae'r esgid ar y droed arall ac mae'r perchennog yn mynd â chi am dro o gwmpas yr ardd mewn tywydd gwael, mae dal ati i edmygu'r gwaith yn gallu bod yn anodd. Weithiau, cyn cychwyn, mae perchennog yr ardd yn penderfynu a ydych chi'n werth y drafferth, ac a dweud y gwir, mae'n braf iawn pan fydd hi'n penderfynu fel arall. Dyna pam mae mynd o gwmpas cymaint o erddi yn eich amser eich hun drwy dalu wrth y drws yn beth mor braf. Gallwch oedi ger eich hoff blanhigion a brysio heibio'r gwelyau blodau ag ymylon concrit yn llawn o rododendrons oren.'

Duges Weddw Devonshire

Roeddwn i'n teimlo'n eithaf tebyg i'r Dduges wrth i mi ymlwybro o gwmpas sioe Tatton yn y tywydd chwilboeth. Mor goch yn fy wyneb ag unrhyw un o'r rhosod hyfryd a oedd yno, ac yn gwisgo het haul hurt o fawr, cefais gyfle i edmygu rhai o'r gerddi syml, naturiol, di-lol ac i gasáu'r planhigion di-chwaeth a oedd wedi'u plannu mewn cynllun rhyfedd (h.y.

plannu blodau o bob lliw dan haul yn yr arddangosfa, a'r rheini ddim hyd yn oed yn blodeuo'n naturiol yr adeg hon o'r flwyddyn), ychwanegu ychydig o bethau sgleiniog ar ben hynny, ac yna gorffen y cyfan gydag aceri o fetel gloyw.

Mae'n siŵr mai'r gwres llethol oedd i'w feio fy mod i mor feirniadol. Wedi'r cwbl, roedd gwneud y gerddi hyn wedi golygu llawer iawn o amser, egni ac arian, wrth gwrs ac am bob garddwr blin fel fi, roedd digon o bobl a oedd wrth eu bodd gyda nhw. Yn bennaf oll, roeddwn i'n gofidio am y stondinwyr a lwyddodd i wenu a denu cwsmeriaid i brynu eu nwyddau, er gwaetha'r gwres llethol. Mae'r sioe i gyd yn hyfryd, yn cynnig cymaint o syniadau ar gyfer projectau. Ewch yno, da chi, ond gobeithio na fydd y tymheredd yn y 90au y flwyddyn nesa!

Hwyl ar y garddio,

Fiona Bell

Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW

01745 814918

**For all farmyard & agricultural
accessories & building supplies**

- ☞ **Tanalised timber**
- ☞ **Concrete posts**
- ☞ **Panel fencing**
- ☞ **Water pipe fittings**
- ☞ **Water tanks**
- ☞ **Sand**
- ☞ **Cement**
- ☞ **Concrete blocks**

Cylch y pabis a'r blodau gwyllt

Ar ôl aredig un o'u caeau ym mis Ebrill eleni, penderfynodd Steve ac Ali Mason, Penrhyn Cottage, neilltuo cylch mawr o gwmpas gwedd-illion derwen a phlannu cymysgedd o hadau blodau gwyllt a phabiau yno. Erbyn hyn mae'r rhain yn eu blodau ac yn hynod liwgar.

Treuliodd Ali ddyddiau ar ei gliniau yn tynnu'r chwyn, troed-yr-wydd gwyn (*fat hen*), o'r pridd i roi cyfle i'r planhigion ifanc fyw. Mae ei dyfalbarhad wedi talu ar ei ganfed – mae'r cylch anferth o flodau'n wledd i'r llygaid ac yn hafan i wenyng ac ieir bach yr haf.



Er bod eu cymydog, Martin, wedi ceisio tynnu llun ohono o'r awyr, nid oedd y llun yn gwneud cyfiawnder â'r olygfa, felly dyma ffotograff ohoni o'r cae.

Da iawn, Steve ac Ali!

Arddangosfa Ruth Thomas

Bydd arddangosfa o gelfydydd gain grefftus Ruth Thomas, Bryn Egwallt yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun tan 7 Awst. Mae sawl artist o Ogledd Cymru yn y gyfres, Ar Wal.



Mae arddangosfa Ruth yn cynnwys,

'Dail, llythrennau a thirlun; plu a blodau; croen neidr, cregyn malwod a phryfed copyn; clipiau papur a phengwiniad; angel, â'n amonit, cathod... ac adar, llawer o adar!'

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan
i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 2pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310

Llwyfan er cof am Lis Morris yn Ysgol Bryn Clwyd

Neges gan Jason Jones o Ysgol Bryn Clwyd:
'Roedd Lis yn olau disglair yn ein cymdogaeth. Rhoddodd gymaint o'i hamser i helpu plant ein hysgol (a sawl un arall) i baratoi ar gyfer perfformiadau o bob math, o Eisteddfod Llandyrnog, i Eisteddfod yr Urdd a'n dramâu ein hunain. Roedd hi'n credu'n angerddol mewn meithrin hyder plant a rhoi cyfle iddyn nhw ddisgleirio trwy berfformio.

'Mae teulu Lis wedi rhoi caniatâd i ni godi llwyfan ar fuarth yr ysgol er cof amdani, a'i enwi ar ei hôl hi.

'Bydd yr ysgol yn creu tudalen Go Fund Me i gyfateb â'r digwyddiad cyntaf i godi arian tuag at y llwyfan. Os hoffech gyfrannu heb ddefnyddio'r rhyngwrwyd, cewch wneud hyn drwy adael arian mewn amlen yn yr ysgol. Cadwch lygad ar Facebook am wybodaeth am ragor o ddigwyddiadau codi arian gan staff, disgyblion a'r gymdogaeth drwy gydol y flwyddyn.'



Coed Llangwyfan – nodyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru

Bydd coed llarwydd sydd wedi'u heintio yn cael eu trin a'u torri mewn coedwig ger Dinbych yn ystod y 12 mis nesaf, yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae coed yn y goedwig wedi'u heintio â *Phytophthora ramorum*, neu glefyd y llarwydd. Amcangyfrifir bod ardal tua 5.5 hectar o faint (ychydig dros bum cae rygbi) wedi'i heintio a bydd angen trin y coed hynny gyda chwistrelliad cemegol i'r bonion cyn diwedd mis Awst. Yn dilyn y gwaith chwistrellu, ni fydd y coed sydd wedi'u trin yn blaguro yn y gwanwyn, felly bydd effaith weledol arnyn nhw nes iddyn nhw gael eu torri yn 2022.

Ar ôl torri'r coed, bydd rhywogaethau brodorol o goed llydanddail yn cael eu plannu yn eu lle. Bydd hyn yn y pen draw yn adfer nodweddion coetir hynafol i'r ardal a bydd yn helpu bioamrywiaeth leol i ffynnu.

Mae CNC, mewn partneriaeth ag AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, wedi trefnu tair sesiwn galw heibio yng Nghoed Llangwyfan cyn i'r gwaith ddechrau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau ac i swyddogion egluro'r gwaith sydd ar y gweill a sut y caiff ei reoli.

Cynhelir y sesiynau galw heibio ar y dyddiadau canlynol a byddan nhw'n dechrau ym mhrif faes parcio uchaf Coed Llangwyfan:

Dydd Mawrth, 3 Awst – 10am

Dydd Mercher, 4 Awst – 2pm

Dydd Mercher, 4 Awst – 4pm

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwaith sydd wedi'i drefnu yng Nghoed Llangwyfan, cysylltwch â Thîm Gweithrediadau Coedwigaeth Gogledd Ddwyrain Cymru ar 0300 065 5070 neu anfonwch e-bost at

ForestOperationsNE@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Profiad Bryn yn gyrru Ariel Atom

Chwedl T H Parry Williams: ‘Tybed fy mod i, O Fi fy hun, / Yn myned yn iau wrth fyned yn hŷn’ ac mae’r awydd am brofi cyflymder yn dal i fod yn gryf ynddo i. Mae’n debyg, oni bai ein bod yn sôn am injan, does gen i ddim diddordeb yn y sgwrs. Ac yn ôl Anwen, nid calon sy gen i, ond piston!

Ond rhaid cyfyngu cyflymder i yrru ar drac ac nid ar y ffordd fawr, a dyna pam rwyf wrth fy modd gyda digwyddiadau ar drac. Roeddwn wedi gwirioni pan roddodd Lisa focs bach coch i mi yn anrheg Nadolig. Er gwaetha’r bygythiad o gyfnod clo arall, dyma olau ar ddiwedd twnnel tywyll iawn yn y pandemig – roedd gen i docyn i deithio.

Weithiau rydych chi’n cael rhyw deimlad nerfus yn eich bol, fel petaech chi’n mynd i wneud rhywbeth dwl neu anghyfreithlon. Dyna’r union deimlad oedd gen i wrth gychwyn yn gynnar, un bore ym mis Mehefin, tuag at Wigan. O ’mlaen i roedd diwrnod arall ag arogl adrenalin yn gryf yr awyr – roedd tri char cyflym iawn yn disgwyl amdana i. Ceir na fyddwn i byth yn gallu fforddio’u prynu; a dweud y gwir, efallai na fyddwn ni eisiau’u prynu. A byddwn i’n cael eu gyrru nhw hyd eithaf fy ngallu i – sylwer, nid eu gallu nhw, o bell ffordd!

Y car cyntaf i mi ei ddewis oedd car bach, bach – Ariel Atom. Mae’n pwyso tua’r un faint â berfa ac mae ganddo ffrâm agored. Roedd hon yn edrych yn debyg iawn i bolion sgaffaldiau wedi’u plygu ac wedi’u weldio at ei gilydd i fod yn debyg i ffrâm Zimmer ar ei hochr, ac roedd hi tua’r un faint.

Y fersiwn ddiweddaraf, yr Atom 8 (nid dyna’r un oedd gen i), yw’r drydedd yn y rhestr o’r ceir cyflymaf sy’n cael bod ar y ffyrdd yn gyfreithlon. Mae’r pŵer a gewch chi am eich pres yn hollol anhygoel.

Roedd hyd yn oed yr un wnes ei yrru yn gallu cyrraedd 0–60 m.y.a. mewn ychydig dros dair eiliad. Be mae hynny’n ei olygu, Bryn?,



fe’ch clywaf chi’n gofyn. Wel, petaech chi’n cychwyn wrth neuadd y pentref, byddwch wedi cyrraedd 120 m.y.a. ger y ffatri laeth. Petaech chi’n llwyddo i fynd o gwmpas y gylchfan heb chwalu wal Mr Law, fe ddylech chi fod ar bodiwm gyda Lewis Hamilton ar y dde i chi – dallt rŵan? Fe fyddai fy hen Land Rover ffyddlon yn cymryd tua 15 munud i wneud hyn, a fyddwn i ddim yn siŵr beth fyddai’r cyflymder – rywle rhwng 40 a 70. Mae cloc cyflymder y Landi fel cloc heb fysedd.

Beth bynnag, i ffwrdd â fi i weld fy ngheir am y diwrnod. Caeodd merch ifanc fi’n ddiogel yn yr Ariel, y car cyntaf, mewn harnes ddwbl, gan wthio padin yma ac acw i ofalu bod pob peth yn y lle iawn. Wedyn dywedodd yr hyfforddwr wrtho i am bwysu’r botwm coch a fflipio’r sbardun. Waw! Yn sydyn fe gofiais i pam roedd yr awydd i wneud hyn mor gryf ynddo i, gan obeithio bod yr un a weldiodd y ffrâm yn deall ei waith. Rhaid profi’r teimlad o

Profiad Bryn yn gyrru Ariel Atom: parhad

ddirgrynu drwy bob rhan o'r corff i'w gredu. Roedd sŵn yr injan Honda yn refio fel peiriant gwnïo ar steroids ychydig y tu ôl i 'nghlustiau i braidd yn ormod, a dweud y gwir. Roedd o'n frawychus ac roeddwn i'n gwybod ei bod yn rhaid i mi barchu'r anghenfil yma. Dwi'n credu bod pobl y trac rasio'n gwneud hyn ar bwrpas fel bod unrhyw un ofnus yn gallu gadael – ond mynd am y trac oedd fy mwriad i!

Allan o'r *pits* a ni, edrych yn y drychau, ac awê! Mae'r cyflymiad yn anhygoel – mae'r sedd yn sugno'ch corff cyfan iddi ac unig bwrpas yr *headrest* yw dal eich pen yn lle iawn a gofalu nad yw'r injan yn ei sugno i mewn iddo. Mae'r chwe gêr, yn fanwl gywir iawn ac yn hawdd eu ffindio.

Roedd yr hyfforddwr yn cyfathrebu drwy ddefnyddio'i ddwylo – llaw dde ymlaen: mwy ar y sbardun. Llaw dde yn ôl: llai ar y sbardun. Llaw chwith ymlaen: pwysa'r brêc. Llaw chwith ymlaen: tynna dy droed oddi ar y brêc. Fe ddaethon ni i ddeall ein gilydd ac i ymddiried yn ein gilydd yn fuan iawn.

Mae *cones* lliwgar, tal wedi'u gosod ar hyd y llinell rasio. Dyma sut gewch chi wneud y gorau o'ch profiad – fflat owt rhwng y *cones* a phan welwch chi'r llaw chwith i fyny, pwyswch y brêc. Weithiau roeddwn i'n meddwl bod fy hyfforddwr naill ai wedi anghofio neu'n gweddïo, ond ar y funud olaf byddai'n rhoi arwydd ac yn tynnu'r llyw fel bod fy nwylo yn y safle naw o'r gloch yn hytrach na thri o'r gloch, ac yn ôl eto. Os oedd o'n credu fy mod i'n petruso ychydig, byddai yn fy helpu gan droi'r llyw yn sydyn – mae'r hyfforddwyr yn gwybod yn union pa mor bell y gallwch chi wthio'r car. Felly maen nhw'n sicrhau eich bod chi'n cael profiad o yrru ar darmac, yn hytrach nag ar laswellt.

Gyrru mewn llinell syth oedd y darn hawdd – y corneli sy'n anodd. Fe gofiais pam oedd yr hyfforddwr wedi dweud wrtha i am gadw fy

modiau y tu allan i'r llyw ac i beidio â'i fwydo rhwng eich dwylo, byth. Os gadewch chi'ch bodiau y tu mewn i ymyl y llyw, bydd y sbôcs yn gafael ynddyn nhw!

Mae'r Ariel mor isel, mae'n glynu wrth y tarmac fel gele, yn enwedig os yw'r teiars yn boeth. Mae'n anghenfil – rhaid i chi fod yn hyderus a dangos pwy ydy'r bôs. Bydd y car yn diolch i chi drwy ufuddhau i bob gorchymyn – rydych wedi llwyddo i'w ddoifi!

Mae'n gar bach gwych ac i bawb sy'n gwirioni ar geir cyflym – ewch ati i greu atgofion. Un diwrnod, fe fydda i'n rhoi fy ffrâm Zimmer ar ei ochr ar lawr y cartref y bydd y plant wedi'i ddewis i fi, bydd metron yn rhoi clustog o dan fy mhen ôl a thu ôl i fy nghefn. Mi feddylia am rywbeth i fod yn olwyn lywio – ac wedyn fe fydda i'n ôl yn Three Sisters ar y diwrnod hyfryd hwnnw ym mis Mehefin. Ond fydd neb yn deall yr arwyddion â'r dwylo, na fydd?



Professional and personal Foot Care in the comfort and privacy of your own home.

Treatments Include:

- ⌘ Corn/Callus Removal
- ⌘ Diabetic Foot Care
- ⌘ Nail Trimming
- ⌘ Thickened Nails
- ⌘ Athlete's Foot
- ⌘ Fungal Nails
- ⌘ Cracked Heels
- ⌘ Ingrown Toe Nails
- ⌘ Verrucae
- ⌘ Foot Care Advice



Initial Assessment FREE

01824 735070

07387 583971

dyffrynfootcare@gmail.com

<http://dyffrynfootcare.com>

Dyffrynfootcare

@dyffrynfootcare

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor Cymuned

Mae Gwasanaethau Cwsmer y Swyddfa Bost wedi cadarnhau bod swyddfa bost y pentre ar agor am lai o oriau na'r arfer, ond y gobaith yw y bydd yn dychwelyd at yr oriau gweithio arferol cyn bo hir.

'Operation London Bridge': Dyma gynllun gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi manylion sut y byddai'r deyrnas yn nodi marwolaeth y frenhines Bydd y Cyngor Cymuned (CC) yn ystyried coffáu'r digwyddiad ar yr adeg briodol, gan ddilyn y canllawiau.

Mae'r CC wedi gwneud cais am oleuadau ym maes parcio Maes Llan/ardal yr Hwylfa, ond mae'r Cyngor Sir wedi dweud nad yw hyn yn bosib oherwydd diffyg cyflenwad trydan. Cafwyd awgrym efallai fod cyflenwad trydan dan ddaear yno.

Mae cais wedi'i wneud i godi arwyddion i rybuddio bod ceffylau ar y ffordd rhwng Llandyrnog a Llangwyfan. Ateb y Cyngor Sir oedd mai dim ond lle y byddai pobl yn dod ar draws ceffylau'n rheolaidd y mae hawl i godi arwyddion felly yn gyfreithlon. Awgrymwyd bod y Cyngor Sir yn ystyried rhoi arwyddion felly ar y B5429 lle mae tair stabl hurio gerllaw'r ffordd.

Grantiau COVID-19: Cafwyd manylion am grant caledi (wedi'i dalu'n uniongyrchol i'r landlord) i denantiaid preifat sydd mewn dyled efo'u rhent. Hefyd, cafwyd manylion am ragor o gymorth sydd ar gael i fusnesau sydd wedi dioddef. Y Cyngor Sir sy'n gweinyddu'r cronfeydd ar ran Llywodraeth Cymru. Ewch i www.denbighshire.gov.uk/en/coronavirus/erf am ragor o fanylion.

Cronfa Berchnogaeth Gymunedol: Mae manylion ar gael gan lywodraeth y DU petai unigolion am gynnig menter gymunedol.

Cronfa gymunedol Fferm Wynt Brenig: Cafwyd manylion am sut i wneud cais am arian o'r bumed rownd. Bydd yr aelodau'n ystyried unrhyw gynlluniau a allai fod yn gymwys. Rhoddodd Cyngor Sir Ddinbych wybod y

byddai'n trwsio'r ffordd rhwng Llangwyfan a Phont Llundain. Mae'n hynod o siomedig bod glaw trwm wedi difrodi'r gwaith trwsio blaenorol. Bwriad y Cyngor yw mynd ati i drwsio'r ffordd eto cyn gynted â phosib.

Cysylltodd y CC â PCSO Lucy Green, ynglŷn ag yrru anystyriol yn yr ardal, gan wahodd yr heddlu i ddod draw i'w weld eu hunain. Atebodd hi nad oedd ar gael oherwydd ei bod ar gyfnod mamolaeth, ond fe drosglwyddodd y neges i gyd-weithiwr sy'n gwneud y gwaith yn ei lle.

Parcio anystyriol ar hyd Oliver's Row: Mae PCSO Green wedi delio â'r mater hwn, fodd bynnag mae rhagor o gwynion wedi dod am geir eraill yn parcio ar y palmant. Bydd y CC yn anfon y manylion at y PCSO perthnasol.

Mae cwmni Wicksteed wedi gorffen y gwaith o osod offer chwarae newydd yng Nghae Nant. Penderfynwyd peidio â nodi'r digwyddiad yn swyddogol oherwydd cyfyngiadau presennol COVID-19.

Bydd Openreach yn gosod offer yn yr Ystafelloedd Coco ym mis Awst a fydd yn addas ar gyfer band eang cyflym iawn. Gellid ystyried defnyddio rhagor ar yr ystafelloedd – pobl sy'n gweithio gartref, plant sydd am gael gwybodaeth ar gyfer eu gwaith cartref (yng nghwmni oedolyn), a.a. Bydd trafodaeth fwy manwl ar hyn eto.

Mae pryderon wedi'u mynegi am y gordyfiant ar hyd lonydd heb eu dosbarthu. Nid yw'r CC yn sicr beth yw'r polisi ynghylch torri glaswellt ar hyn o bryd a bydd yn holi am eglurhad.

Materion cynllunio:

Groes Fawr – Bwriad i godi adeilad amaethyddol. Ni chafwyd gwrthwynebiad.

Coach House, Plas Bennett – Diwygio lleoliad stiwdio artist. Cyflwynwyd hyn i'r Cyngor Sir fel diwygiad ansylweddol felly lle'r swyddogion y Cyngor Sir oedd penderfynu a oedd angen ymgynghori â'r Cyngor Cymuned ai peidio.